*This document is available in English* **Rhif ar yr agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad ar gyfer | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **23 Hydref 2017** |
| Swyddog Arweiniol | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Ken Finch – Trysorydd** |
| Pwnc | **Darpariaeth Isafswm Refeniw** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Amlinellu'r sail ar gyfer adolygu'r modd o gyfrifo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ac adolygu'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2018/19.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r posibilrwydd o adolygu'r sail ar gyfer cyfrifo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw wedi cael ei grybwyll yn gynharach yn y flwyddyn ariannol hon pan fu'r Aelodau'n ystyried materion Rheoli'r Trysorlys. Mae'r adroddiad hwn yn darparu **amlinelliad** o'r posibilrwydd o wneud arbediad ar ffurf arian parod yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Hefyd, byddai'n darparu dull mwy gwastad o gyfrifo cost y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn y blynyddoedd i ddod.

3 Bydd angen i'r aelodau ystyried gwybodaeth ariannol a thechnegol manylach cyn gwneud penderfyniad terfynol. Os bydd yr Aelodau'n cymeradwyo'r cysyniad sydd yn yr adroddiad hwn, bydd adroddiad manylach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod yr Awdurdod yn Rhagfyr 2017.

**ARGYMHELLION**

4 Argymell y canlynol i'r Awdurdod Tân ac Achub:

(a) bod adolygu'r sail ar gyfer cyfrifo'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2017/18 a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw ar gyfer 2018/19 yn cael eu hystyried ar gyfer eu cymeradwyo;

(b) bod y Trysorydd yn trafod y newidiadau arfaethedig gyda Swyddfa Archwilio Cymru, a bod eu barn yn cael ei adrodd i'r Awdurdod.

**GWYBODAETH**

5 Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cytuno ar ddatganiad o'i bolisi o wneud Darpariaeth Isafswm Refeniw cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r polisi'n nodi'r dull i'w ddefnyddio ar gyfer rhoi swm darbodus ar y gyllideb refeniw er mwyn ad-dalu dyled. Y polisi y cytunodd yr Aelodau arno ar gyfer 2017/18 oedd ad-dalu:

- 4% o'r balans sy'n weddill o'r gwariant cyfalaf ar Dir ac Adeiladau (ac eithrio prosiect adeiladu newydd Gorsaf Dân Wrecsam)
- Cerbydau, Peiriannau, Cyfarpar a Seilwaith, bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig at amcangyfrif o oes yr asedau
- y gwariant a fu ar orsaf dân newydd Wrecsam i'w ad-dalu dros oes y brydles sydd gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (50 mlynedd).

6 Fodd bynnag, gan fod pob benthyciad yn ddigymorth (dim cyllid uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwariant cyfalaf), mae gan yr Awdurdod yr opsiwn o ddefnyddio'r 'Dull Oes Asedau' i ad-dalu'r gwariant cyfalaf sydd ar Dir ac Adeiladau. Byddai adolygu'r polisi i'r Dull Oes Asedau (40 mlynedd) ar gyfer ad-dalu gwariant cyfalaf ar adeiladau yn lleihau'r Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn fawr.

7 Byddai hyn yn swm ddarbodus o Ddarpariaeth Isafswm Refeniw ym marn y Trysorydd, a byddai'n cyd-fynd â'r dull a fabwysiadwyd gan nifer fawr o awdurdodau lleol yn Lloegr a chan nifer gynyddol o awdurdodau lleol yng Nghymru, gan gynnwys CBS Conwy, sy'n darparu cyngor ar reoli'r trysorlys i'r Awdurdod hwn.

8 Amcangyfrifir y bydd yr arbediad ariannol yn 2017/18, a'r blynyddoedd wedi hynny, yn £360,000 bob blwyddyn – bydd y cyfrifiadau manwl i'w cael yn yr adroddiad i'r Awdurdod. Hefyd, bydd yr Aelodau'n siŵr o werthfawrogi y byddai'r fenter hon yn arwain at arbediad a fyddai'n gymorth mawr i gynllunio ariannol yn y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r arbediad effeithlonrwydd yn darparu ar gyfer defnyddio mwy o adnoddau i ddarparu gwasanaethau. |
| Cyllideb | Darparu arbedion sy'n gallu bod o gymorth i gynllunio ariannol yn y presennol a'r dyfodol. |
| Cyfreithiol | Nid oes dim goblygiadau cyfreithiol penodol gan fod yr Awdurdod yn gweithredu'n ddarbodus. |
| Staffio | Nid oes dim effaith ar faterion staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiadau. |
| Risgiau | Gallai Swyddfa Archwilio Cymru herio'r dull ond gofynnir am eu barn cyn i'r Awdurdod ystyried cymeradwyo'r newid yn y Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw. Gallai mwy o gyfalaf yn mewn blynyddoedd i ddod negyddu'r arbediad, ond ystyrir mai bach yw'r risg hwnnw. |